


Adroddiad cryno 5 mlynedd Dyfodol Byd-eang 2015–2020



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cyd-destun

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Dyfodol byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020**. Nod y rhaglen oedd gwrthdroi dirywiad dysgu ac addysgu ieithoedd tramor modern yng Nghymru, gwella cyrhaeddiad a hyrwyddo ieithoedd tramor modern fel pynciau pwysig sy'n gallu arwain at ddewisiadau gyrfa amrywiol a chyffrous.

Mae Dyfodol Byd-eang wedi llwyddo i ddarparu amrywiaeth eang o gymorth a mentrau ledled Cymru. Wrth i ni edrych tuag at ein cwricwlwm newydd, rydym yn bachu ar y cyfle i adolygu'r pum mlynedd diwethaf ac yn rhoi blas ar rywfaint o'r gwaith a'r cymorth y mae Dyfodol Byd-eang wedi'i ddarparu.

Er enghraifft, bydd cyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn ffactor pwysig o ran ein helpu ni i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn y nifer sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU a Safon Uwch, trwy greu mwy o gapasiti yn y system.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos â'n partneriaid allweddol a chefnogi darpariaeth ieithoedd yn ein hysgolion wrth i ni drosglwyddo i'r cwricwlwm newydd.

“Rwy wedi ymrwymo i'n weledigaeth y bydd pob dysgwr yng Nghymru, o'r cam cynharaf ar eu taith addysgol, yn dod yn ddinasyddion byd-eang, yn gallu siarad ieithoedd eraill a gwerthfawrogi eu diwylliant eu hunain a diwylliant eraill.

Mae'n hanfodol ein bod ni'n hyrwyddo pwysigrwydd ieithoedd tramor modern a'r cyfleoedd y maen nhw'n eu cynnig mewn bywyd ac mewn gyrfaedd i'n pobl ifanc. Nid dim ond cymhwyster i'n pobl ifanc yw dysgu ieithoedd, mae'n ehangu eu gorwelion, yn datblygu eu dealltwriaeth ddiwylliannol, ac yn darparu sgiliau y gallan nhw eu defnyddio yma ac ar draws y byd.”

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg



Dyfodol byd-eang

Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru 2015–2020

www.llyw.cymru

Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth: rhif 179/2015
Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2015

Ein partneriaid

Mae Dyfodol Byd-eang yn cwmpasu amrywiaeth eang o bartneriaid sydd wedi goruchwyllo a llywio'r gwaith o gyflawni a gweithredu Cynllun a Rhaglen Dyfodol Byd-eang (2015–2020). Maent yn awyddus i ysbrydoli ein hysgolion gydag arbenigedd a chymorth amrywiol, gan gynnwys hyfforddiant, deunyddiau, gwybodaeth arbenigol ac adnoddau am ddim, i wella dysgu ac addysgu ieithoedd yn ein hystafelloedd dosbarth.

Mae ein partneriaid yn cynnwys:

- consortia addysg rhanbarthol
- athrawon
- prifysgolion yng Nghymru
- Goethe-Institut
- Institut Français
- Swyddfa Addysg Llysochadaeth Sbaen
- Adran Addysg Swyddfa Is-gennad Cyffredinol yr Eidal yn Llundain
- Sefydliadau Confucius
- British Council Cymru
- Estyn
- Llwybrau at ieithoedd Cymru
- y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Cyswllt Ysgolion Rhyngwladol, Cyngor Dinas Caerdydd
- BBC Cymru.

Nodau a chamau gweithredu'r cynllun

Nodau strategol

- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU a Safon Uwch
- Gwella system addysgu ieithoedd tramor modern a gwella'r profiad dysgu
- Cynnal y lefelau cyrhaeddiad presennol mewn pynciau ieithoedd tramor modern a'u gwella


Camau strategol

Arweiniwyd ein camau strategol gan dair thema allweddol.

1 Hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd tramor modern fel pwnc pwysig, nid dim ond ar Lefel 2, ond hefyd fel dewis tymor hirach a all arwain at gyfleoedd gyrfu cyffrous a gwerthfawr.

2 Meithrin gallu'r gweithlu addysg i gynnig ieithoedd tramor modern yn effeithiol o Flwyddyn 5 ymlaen, a chefnogi'r gweithlu i ddatblygu'n broffesiynol, gan ei gwneud yn bosibl i bob dysgwr fanteisio ar strategaeth 'Dwyieithog a mwy' drwy'r Fargen Newydd/Datblygu Proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg, adolygu hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon a'r rhwydwaith ysgolion arloesi.

3 Cynnig gwell cyfleoedd dysgu i ddenu a chyffroi dysgwyr.



Cam 1

Hyrwyddo a chodi proffil ieithoedd tramor modern fel pwnc pwysig, nid dim ond ar Lefel 2, ond hefyd fel dewis tymor hirach a all arwain at gyfleoedd gyrfa cyffrous a gwerthfawr.

Trwy'r bartneriaeth Dyfodol Byd-eang rhwng ysgolion a cholegau, consortia addysg rhanbarthol, sefydliadau addysg uwch a sefydliadau iaith, mae mwy o gymorth wedi bod i ieithoedd a hyrwyddo ieithoedd fel cyfle i bobl ifanc ddatblygu a manteisio ar gyfleoedd gyrfa.

Prosiect Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern Prifysgol Caerdydd

Enillydd 2017 Cwpan Threhold y Sefydliad Siartredig Ieithyddiaeth sy'n dathlu rhagoriaeth o ran dysgu iaith.

Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect, a reolir gan Brifysgol Caerdydd, wedi cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n astudio ieithoedd tramor modern ar lefel TGAU 50 y cant ar gyfartaledd dros bedair blynedd y prosiect.

Mae dros 115 o ysgolion uwchradd wedi cymryd rhan yn y Prosiect Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern dros 5 mlynedd, gan gyrraedd dros 10,000 o ddisgyblion.

Cymerodd 29 o ysgolion ran yn ymarfer e-fentora Digi-languages, gan ymestyn cwmpas y prosiect i ardaloedd anghysbell. Aeth 43 y cant o'r disgyblion a gymerodd ran yn yr ymarfer e-fentora **yn y cam cyntaf** ati i ddewis TGAU mewn ieithoedd tramor modern.

Aeth dros 2,340 o'r rhai a fentorwyd i seremonïau gwobrwyo a chydabyddiaeth i ddathlu eu cyflawniadau dros y cyfnod o 5 mlynedd.

Llwybrau at Ieithoedd Cymru

Er mwyn hyrwyddo ieithoedd, codi disgwyliadau, gwella brwdfrydedd a chryfhau dyfalbarhad a chydnerthedd personol dysgwyr sy'n astudio ieithoedd tramor modern, ers 2016 mae **Llwybrau at Ieithoedd Cymru** wedi:

- hyfforddi dros 1,425 o ddisgyblion o bob cwr o Gymru i fod yn Llysgenhadon Iaith, er mwyn hyrwyddo a chefnogi eu hadrannau ieithoedd
- ymgysylltu â thros 200 o ysgolion cynradd ac uwchradd o bob un o'n pedwar consortiwm rhanbarthol
- hyfforddi dros 130 o israddedigion mewn prifysgolion a 90 o fyfyrwyr mewn colegau i fod yn Llysgenhadon Iaith Llwybrau at Ieithoedd Cymru i ddarparu sesiynau mewn ysgolion a chefnogi dros 200 o ddigwyddiadau a drefnwyd gan Llwybrau at Ieithoedd Cymru. Mae'r digwyddiadau hynny'n cynnwys dosbarthiadau meistr Safon Uwch; cydweithredu â Rhwydwaith Seren Llywodraeth Cymru i drefnu prosiectau preswyl ieithoedd tramor modern yn Rhydychen ar gyfer Blwyddyn 9; cystadleuaeth genedlaethol y *Spelling Bee*; digwyddiad Gŵyl yr Ieithoedd; diwrnodau hyfforddi ar gyfer Llysgenhadon ac ymweliadau ag ysgolion.

Cam 1

Mae *Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru: Adroddiad Ymchwil 2019* y **British Council** yn nodi bod '...twf cynyddol yn y diddordeb mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg yn y sector cynradd' ac maent yn nodi bod y ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor modern/ieithoedd rhyngwladol wedi cynyddu mewn ysgolion cynradd dros gyfnod Dyfodol Byd-eang o **28 y cant yn 2015/16 i 39 y cant yn 2019**.



Mae ein **cwricwlwm newydd** yn dod â dysgu ieithoedd ynghyd o dan un Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. A bydd y Maes hwnnw'n cyflwyno ieithoedd ychwanegol i blant llawer iau, fel bod dysgwyr yn cael eu cyffroi gan ieithoedd rhyngwladol yn yr ysgol gynradd.

Hola

你好

Ciao

Bonjour

Guten Tag

Mae'r pum mlynedd diwethaf wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n sefyll arholiadau mewn Mandarin



Cyflwynwyd y QCFs(i) (Llwybrau Iaith y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau) yn 2015, ac fe'i dilynwyd gan 120 o bobl ifanc yn 2019

Mae nifer y myfyrwyr sy'n cymryd cymwysterau HSK(ii) wedi treblu bron, o 70 (yn 2015) i 201 (yn 2019)

Yn 2019, safodd dwywaith cymaint o bobl ifanc TGAU Mandarin, o 15 (yn 2015) i 30 (yn 2019)

Consortia rhanbarthol

Annog dysgwyr i ddewis pynciau ieithoedd tramor modern ar Lefel 2 a 3

Mae'r enghreifftiau a ganlyn yn cynnwys gweithgarwch sy'n gyffredin i bob rhanbarth consortia, dros bum mlynedd diwethaf y rhaglen.

Digwyddiadau blynyddol

CSC – Aeth dros 400 o athrawon a disgyblion i ddigwyddiadau ieithoedd rhyngwladol uwchradd 2019 yn Stadiwm Dinas Caerdydd a oedd yn ceisio cynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2019. Dros y pum mlynedd mae hynny'n dod i gyfanswm o 2,500 o ddisgyblion ac athrawon.

Sgyrsiau gyrfaoedd a siaradwyr ysbrydoledig

EAS – Mae 82 y cant o ddisgyblion uwchradd wedi elwa ar ieithoedd rhyngwladol mewn sgyrsiau gyrfaoedd a chlywed sut y gall ieithoedd rhyngwladol fod yn ased i'w dyfodol.

Cymwysterau iaith alwedigaethol

GwE – Yn ogystal â chysiau ieithoedd tramor modern TGAU a Safon Uwch, mae pedair ysgol yn GwE yn cynnig y cymhwyster galwedigaethol Cyfathrebu Busnes Byd-eang (GBC) – Lefel 2. Cynhaliwyd sawl gweithdy a sesiwn hyfforddiant, sydd wedi denu diddordeb gan wyth ysgol arall yn y rhanbarth. Diolch i gymorth Dyfodol Byd-eang, mae prosiect cydweithredol wedi galluogi athrawon i weithio gyda'i gilydd a chreu adnoddau sydd wedi'u rhannu'n genedlaethol ar Google Drive.

Digwyddiadau rhwydweithio a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

ERW – Mae cyfleoedd i rwydweithio (mwy na 25 o ddiwrnodau rhwydweithio sy'n cynnwys mwy na 50 o athrawon ar draws y rhanbarth) a rhannu arfer gorau wedi helpu i feithrin a gwella hyder athrawon i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd a gwella eu cyrhaeddiad.



Cam 2

Meithrin gallu'r gweithlu addysg i gynnig ieithoedd tramor modern yn effeithiol o Flwyddyn 5 ymlaen, a chefnogi'r gweithlu i ddatblygu'n broffesiynol, gan ei gwneud yn bosibl i bob dysgwr fanteisio ar strategaeth 'Dwyieithog a mwy' drwy'r Fargen Newydd/Datblygu Proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg, adolygu hyfforddiant ac addysg gychwynol athrawon a'r rhwydwaith ysgolion arloesi.

Rydym wedi datblygu cymorth ysgol i ysgol ar gyfer darparu ieithoedd ac wedi darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern.

Ers 2015, mae'r **British Council Cymru** wedi cynhyrchu'r adroddiad blynyddol *Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru* sy'n rhoi cipolwg gwerthfawr ar gyflwr dysgu ac addysgu ieithoedd modern yn ysgolion Cymru. Yn 2019, roedd **88** y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd i'r arolwg wedi ymgysylltu â pholisi **Dyfodol Byd-eang 2015–2020 Llywodraeth Cymru**, ac mae mwy na hanner yr ymatebwyr o'r farn bod y fenter wedi cael rhywfaint o effaith ar y sefyllfa mewn perthynas ag ieithoedd tramor modern yng Nghymru.

Rhwng mis Chwefror 2017 a mis Tachwedd **2018**, i gyd-fynd â datblygu'r cwricwlwm newydd, ariannodd y **British Council** ymweliadau astudio i **Ganada** a'r **Ffindir** i edrych ar amlieithrwydd gan gynnwys beth yw'r prif gymhellion polisi ar gyfer ei roi ar waith yn y systemau addysg dwyieithog llwyddiannus hyn.

Sefydliadau Confucius Cymru

Mae 50 o ysgolion o bob cwr o Gymru yn gweithio gyda'r tri Sefydliad Confucius Cymru, gyda nifer yr ystafelloedd dosbarth Confucius yn codi o 11 yn 2015 i 19 ar hyn o bryd.



Consortiwm GwE

Mae 100 y cant o adrannau ieithoedd tramor modern GwE wedi ymgysylltu â rhwydweithiau cydweithredol Dyfodol Byd-eang. Mae ymarferwyr wedi elwa ar gyfleoedd hyfforddiant rheolaidd a chyfoethog a chymorth ysgol i ysgol effeithiol. Maent wedi rhannu arferion da ac wedi creu cyfoeth o adnoddau sydd wedi'u lanlwytho i Hwb.

'Mae athrawon mewn sefyllfa well, yn cael gwell cefnogaeth ac yn fwy brwdfrydig. Gwahoddir arbenigwyr mewn addysgu iaith yn rheolaidd i gyflwyno sesiynau i athrawon ac i ddatblygu arfer.'

Mae'r model Canolfannau rhanbarthol wedi bod yn llwyddiant mawr. Ar gyfartaledd, mae 70 y cant o holl ysgolion uwchradd GwE yn mynychu cyfarfodydd bob tymor. 'Mae athrawon yn gwerthfawrogi'n fawr y cymorth a ddarperir gan ein rhwydweithiau Canolfannau rhanbarthol i rannu arfer da, codi pryderon a nodi anghenion.' Mae archwiliad blynyddol a gwblhawyd gan 100 y cant o'r ysgolion yn helpu arweinwyr y Canolfannau rhanbarthol i ganfod pa gymorth penodol y mae athrawon ei angen.

Mae 40 o ysgolion cynradd wedi datblygu modelau darparu llwyddiannus ar gyfer ieithoedd rhyngwladol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. 'Mae un o'n hathrawon wedi dod yn Athro Cyswllt i'r Brifysgol Agored ac mae bellach yn cefnogi athrawon cynradd eraill i gyflwyno ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd.'



Y Goethe-Institut

Mae'r **Goethe-Institut** Llundain wedi cefnogi Almaeneg ym mhob rhan o Gymru yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae lansiad swyddogol o bresenoldeb y Goethe-Institut yn Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd yn 2017 wedi cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau ar y cyd i ysgolion. Mae ganddo bob math o adnoddau a deunyddiau ar-lein, gan gynnwys rhai i gefnogi addysgu a dysgu Almaeneg ar lefel TGAU a Safon Uwch.

Mae cyrsiau DPP Dysgu Cyfunol (Deutsch Lehren Lernen – DLL) y Goethe-Institut yn cael eu cynnig gan bresenoldeb Goethe-Institut Llundain ym Mhrifysgol Caerdydd i helpu athrawon i ddatblygu eu methodoleg a chynnal gwaith ymchwil weithredu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r Goethe-Institut yn helpu athrawon ysgolion cynradd i gyflwyno Almaeneg i blant mewn ffordd ddifyr a hygyrch trwy'r rhaglen 'Felix and Franz!', sy'n targedu athrawon anarbenigol. Maent yn darparu cyrsiau uwchsgilio iaith a ariennir hefyd ar gyfer athrawon ysgol gynradd yn ôl yr angen i sicrhau bod gan y rhai hynny nad ydynt yn arbenigo yn yr iaith wybodaeth sylfaenol am Almaeneg.

Mae'r Goethe-Institut hefyd yn cefnogi ieithoedd tramor modern a llythrennedd digidol drwy ddatblygu rhwydweithiau Almaeneg digidol mewn ysgolion yng Nghymru, sy'n cynnwys cyflwyno apiau dysgu sy'n mesur cynnydd disgyblion, a rhoi hyfforddiant ar y rhain.

Consortiwm CSC

O fewn tair blynedd mae ysgol gynradd arweiniol CSC wedi cydweithio gyda dros 30 o ysgolion cynradd i ddatblygu ieithoedd rhyngwladol mewn ysgolion cynradd. Mae athrawon cynradd hefyd wedi cymryd rhan mewn rhaglen cyfnewid athrawon gyda Castilla y Leon yn Sbaen, gan archwilio amlieithrwydd.

Mae Pasbort Iaith wedi'i greu ac yn cael ei ddatblygu ymhellach, ei fireinio a'i dreialu mewn oddeutu 10 lleoliad yn y rhanbarth.

Mae astudiaethau achos ac adnoddau cysylltiedig wedi'u lanlwytho i Hwb, ynghyd â phhecyn cymorth digidol y gall athrawon ieithoedd tramor modern ar draws CSC gael gafael arno.

Dyfarnwyd grantiau am ddatblygu system ysgol 'ddwyieithog a mwy' ac am ddatblygu prosiectau pontio cynradd-uwchradd yn y rhanbarth.

Mae rhaglenni uwchradd wedi'u sefydlu a'u hwyluso, gan ganolbwyntio ar gyflwyno ac addysgeg ieithoedd Rhyngwladol yn unol â'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae rhaglenni'n cynnwys arwain a rheoli adran ieithoedd Rhyngwladol, TGAU Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg, Safon Uwch Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg, datblygu ieithoedd cymunedol a phrosiectau pontio.

Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen



Ym mis Rhagfyr **2016**, llofnododd Y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AS, **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth** gyda Llywodraeth Sbaen i greu Rhaglen Cymru a Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen (SEEO-WP) i gyflwyno a chefnogi dysgu ac addysgu'r iaith Sbaeneg yng Nghymru.

Yn ogystal, ym mis Medi 2017 agorodd Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen swyddfa yn Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd (ar y cyd â'r Goethe-Institut) gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ac athrawon a helpu i wella ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau mewn Sbaeneg.

Mae Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen – Rhaglen Cymru yn parhau i ddarparu gweithdai ar iaith a diwylliant Sbaen i ysgolion ar y cyd â'r consortia a Llwybrau i Ieithoedd Cymru. Gall ysgolion hefyd gael mynediad am ddim i lu o adnoddau ar-lein. Mae Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen hefyd yn darparu cymorth datblygiad proffesiynol gan weithio'n agos gyda rhanbarthau consortia ac Ysgol Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd. Mae Swyddfa Addysg Llysgenhadaeth Sbaen hefyd yn cysylltu ag ysgolion yng Nghymru a Sbaen fel rhan o'r rhaglen cysgodi swyddi.

Cyswllt Ysgolion Rhyngwladol, Cyngor Dinas Caerdydd

Mae adran **Cyswllt Ysgolion Rhyngwladol, Cyngor Dinas Caerdydd** yn cefnogi ymweliadau athrawon â gwledydd ledled Ewrop i wella eu dysgu mewn ieithoedd i ddarparu addysgu a dysgu o safon uchel ar draws pob grŵp oedran. Bu amryw o brosiectau i rannu arfer ac arloesi, gan gynnwys y prosiect 'Arferion arloesol wrth addysgu iaith mewn gwledydd ieithoedd lleiafrifol', lle mae ysgolion o'r consortiwm EAS wedi bod yn cydweithio ag ysgolion a sefydliadau yn Iwerddon a Galicia, Sbaen.

Cam 2

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

TEachers Learning to Teach languages (TELT) – Rhaglen a gyflwynir gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, sy'n galluogi athrawon cynradd i ddysgu iaith newydd ar yr un pryd (Ffrangeg, Almaeneg, Tsieinëeg Mandarin a Sbaeneg) ac i ddatblygu'r sgiliau i addysgu ieithoedd rhyngwladol mewn ystafelloedd dosbarth cynradd wrth i ni drosglwyddo i'r cwricwlwm newydd. Cafodd TELT ei ddatblygu mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yn yr Alban a SCILT, Canolfan Genedlaethol yr Alban ar gyfer ieithoedd. Yn ychwanegol, ers 2018 mae Dyfodol Byd-eang wedi sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer hyd at 100 o athrawon ysgolion cynradd ledled Cymru bob blwyddyn i gofrestru ar y rhaglen fel rhan o'u hyfforddiant DPP.

BBC Bitesize




Mae'r BBC wedi buddsoddi yn y gwaith o greu amrywiaeth o adnoddau iaith cynradd ac uwchradd newydd yn ystod 2019 a 2020 ar gyfer *BBC Bitesize*. I ddisgyblion oed cynradd ceir adnoddau i gefnogi dysgu Ffrangeg, Sbaeneg a Mandarin. I ddisgyblion uwchradd yng Nghyfnod Allweddol 3 a'r rheini sy'n astudio TGAU, ceir adnoddau ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, yn ogystal ag adnoddau a gyhoeddwyd yn flaenorol ac sydd bellach ar gael i bawb ar *BBC Bitesize*.

Gwobrau Athrawon Almaeneg y DU

Llwyddiant yng ngwobrau Athrawon Almaeneg y DU – cydnabod rhagoriaeth o ran addysgu Almaeneg.

Yng **Ngwobrau 2019** dyfarnwyd Gwobr **Athro Almaeneg Cynradd y Flwyddyn** i athro ysgol gynradd CSC, a chafodd athro ysgol gynradd EAS gydnabyddiaeth arbennig mewn seremoni yn Llysgenhadaeth yr Almaen yn Llundain, dan arweiniad Llysgennad yr Almaen. Y prif siaradwyr oedd yr awdur Julia Donaldson a'r darlunydd Axel Scheffler.


Yng Ngwobrau 2017 dyfarnwyd Gwobrau Athrawon Almaeneg i ddau athro Almaeneg Uwchradd EAS yn Llysgenhadaeth yr Almaen mewn seremoni dan arweiniad y Llysgennad. Y prif siaradwr oedd yr awdur enwog John le Carré.



Cam 3

Cynnig gwell cyfleoedd dysgu i ddenu a chyffroi dysgwyr.

Rydym wedi datblygu dulliau newydd o wella ymgysylltiad â dysgwyr sy'n eu galluogi i gael profiad o wahanol ffyrdd o astudio ieithoedd. Ynghyd â'n partneriaid, rydym wedi cynnig gwahanol ddulliau ac amgylcheddau, gan hyrwyddo dysgu ieithoedd fel opsiwn ymarferol a chyffrous. Ynghyd â'n partneriaid Dyfodol Byd-eang, rydym wedi darparu cyfleoedd sy'n ceisio cynyddu'r niferoedd, gwella ymgysylltu a gwella cyrhaeddiad.



Mae **Sefydliadau Confucius Cymru** yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol a chlybiau allgyrsiol ar gyfer dysgwyr o bob cwr o Gymru. Maent wedi cynyddu nifer eu tiwtoriaid a gwirfoddolwyr cymwys o 26 yn 2015 i 36 yn 2019.

Roedd prosiect Cerdd Iaith/Listening to Languages (2017–18) y **British Council Cymru** yn cynnwys Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a chonsortiw m rhanbarthol ERW yn gweithio i gefnogi athrawon i ddarparu gwersi iaith (Sbaeneg, Cymraeg a Saesneg) trwy gyfrwng cerddoriaeth a'r celfyddydau mynegiannol. Mae wedi hyfforddi 40 o athrawon ac uwch arweinwyr.



Consortiwm EAS

Mae dros hanner holl ddisgyblion ysgolion uwchradd EAS wedi cymryd rhan ac elwa o Brosiect Mentora Myfyrwyr Ieithoedd Tramor Modern Prifysgol Caerdydd a'r gweithgareddau cysylltiedig yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Yn 2019, cafodd cynllun peilot llwyddiannus a gyflwynwyd gan EAS: *Diwrnod Arwyr Ieithoedd Rhyngwladol* ar gyfer disgyblion cynradd ei lansio gyda Llwybrau at Ieithoedd Cymru. Hwn oedd y cynllun cyntaf o'i fath, ac fe gyflawnodd 100 y cant o ran capasiti, mwynhad a budd.

Hyrwyddo dulliau trawsgwricwlaidd: Yn 2017/18, lansiodd EAS ddiwyddiadau peilot/gweithdai datblygu Ieithoedd Rhyngwladol a STEM llwyddiannus ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn 2020, edrychodd chwe ysgol a oedd yn ymweld ar sut yr oedd disgyblion mewn un ysgol EAS yn defnyddio Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg, Iseldireg, Swedeg ac iaith arwyddion mewn gweithgareddau STEM.

Ym mlwyddyn academaidd 2016/17, llwyddodd ysgol gyfun EAS i ennill gwobr Tîm Llysgennad Iaith Disgyblion y Flwyddyn Llwybrau at Ieithoedd Cymru.

Rhwng 2016 a 2019/20, daeth pedair ysgol EAS yn ysgolion gwladol cyntaf y DU i gael grantiau rhwydweithio Digidol Almaeneg gan y Goethe-Institut.

Mae 40 y cant o glystyrau EAS yn datblygu Ieithoedd mewn ysgolion cynradd erbyn hyn ac wrth bontio i ysgolion uwchradd trwy gymorth mentora ac arweiniad gan arweinydd yr EAS ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol neu Ysgolion Rhwydwaith Dysgu Ieithoedd Rhyngwladol. Mae dulliau'n cynnwys llythrennedd amlieithog a datblygiadau ieithyddol/trawsgwricwlaidd.

Adran Addysg Swyddfa Is-gennad Cyffredinol yr Eidal yn Llundain




I hyrwyddo addysgu a dysgu iaith a diwylliant Eidaleg, mae Adran Addysg Swyddfa Is-gennad Cyffredinol yr Eidal yn Llundain yn parhau i ddarparu athrawon Eidaleg a gwersi Eidaleg am ddim i ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r cytundeb aml-flwydd, sydd wedi ehangu drwy ranbarthau consortia EAS a CSC wedi ffynnu dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r Adran Addysg yn awr yn awyddus i ychwanegu rhagor o ysgolion i'r prosiect ac ehangu ymhellach ei gysylltiadau rhwydwaith yng Nghymru.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Adran Addysg wedi gweld nifer yr oriau y gofynnir amdanynt ar gyfer gwersi Eidaleg yn codi o 13 i 20 awr yr wythnos. Mae pob ysgol sy'n cymryd rhan wedi manteisio ar wersi Eidaleg am ddim am y flwyddyn ysgol gyfan am gyfanswm o 35 wythnos.

Mae'r cydweithio gydag ysgolion EAS a CSC hefyd wedi arwain at well canlyniadau TGAU Eidaleg, gyda disgyblion fel arfer yn cael A* i B. Cafodd ei gynig i Flwyddoedd 10 ac 11 i ddechrau, ond yn awr mae Eidaleg yn cael ei gynig mewn rhai ysgolion ym Mlwyddyn 9 drwy Dystysgrif Presenoldeb Adran Addysg Swyddfa Is-gennad Cyffredinol yr Eidal yn Llundain, sy'n eu hybu i ddal ati hyd arholiad terfynol y dysgwyr. Mae gweithdai a stondinau Eidaleg hefyd ar gael yn rheolaidd mewn digwyddiadau iaith rhanbarthol i annog mwy o ddisgyblion i gymryd rhan.

Consortiwm ERW

- Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae dros 1,000 o Lysgenhadon Iaith wedi'u hyfforddi ledled y rhanbarth.
- Mae mwy na 1,200 o ddisgyblion wedi cael sgysiau ysbrydoledig am iaith a busnes.
- Mae ysgolion cynradd yn ERW wedi cael hyfforddiant mewn llythrennedd amlieithog.
- Yn 2018, cynhaliwyd dosbarthiadau meistr ieithoedd tramor modern Safon Uwch ledled y rhanbarth.
- Hefyd yn 2018, roedd 350 o ddisgyblion o'r rhanbarth wedi mynd i gynhadledd ieithoedd 'Dwyieithog i Amlieithog' dan arweiniad y newyddiadurwr o'r BBC a myfyriwr ieithoedd graddedig, Huw Edwards.
- Yn 2017–18, cymerodd 300 o ddisgyblion cynradd ERW ran yn rhaglen gelfyddydau lwyddiannus 'Sbaeneg trwy gerddoriaeth' y British Council Cymru, Cerdd Iaith/Listening to Languages.
- Yn 2016 enillodd ysgol ERW gystadleuaeth genedlaethol **Arsenal Double Club** ar gyfer ysgolion gyda gweithgaredd ddysgu newydd ar gyfer rhaglen ieithoedd **Arsenal Double Club** sy'n cyfuno dysgu Ffrangeg a Chymraeg.



Institut français du Royaume-Uni

Mae **Institut français du Royaume-Uni (IFRU)** – sy'n cynnwys Alliance Française de Cardiff (2015 i 2018) – wedi cynnig cyfleoedd gwyb i ddysgwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws Cymru i ymarfer ac archwilio'r iaith Ffrangeg a diwylliannau siaradwyr Ffrangeg.

Mae IFRU wedi cymryd rhan mewn amryw o ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo a gwella proffil dysgu Ffrangeg ym mhob rhanbarth consortia. Mae wedi darparu dosbarthiadau meistr ar gyfer disgyblion gan ganolbwyntio ar arholiadau TGAU, Safon UG a Safon Uwch yn ogystal â sesiynau DPP rhanbarthol ar gyfer athrawon ar yr un peth. Rhwng 2015 a 2020 rhoddodd IFRU gyfanswm o 16 dosbarth meistr ac 18 sesiwn DPP ar draws Cymru.

Mae IFRU wedi darparu amrywiaeth eang o adnoddau am ddim i ysgolion, gan gynnwys y Prosiect Ffrangeg ar gyfer ysgolion Cynradd, addysgu Ffrangeg trwy gerddoriaeth trwy 'Et en plus je chante en français' a llyfrgell ddigidol amlgyfrwng am ddim Culturthèque. Mae IFRU hefyd yn trefnu Joutes Oratoires, sef cystadleuaeth drafod ar draws Ffrainc sydd ar agor i fyfyrwyr Blynyddoedd 12 ac 13. Roedd yr IFRU yn cynnig gweithdai am ddim i ysgolion gwladol i baratoi ar gyfer y gystadleuaeth.

Yn 2019, enillodd tair o ysgolion Cymru wobrau yng nghystadleuaeth flynyddol IFRU, sef y Cystadleuaeth Fideo Pop Ffrengig, ar y cyd â Francophonie UK. Mae'r gystadleuaeth yn agored i ysgolion o bob cwr o'r DU ac yn cynnig y cyfle i gystadlu o dan gategoriâu ar gyfer tri grŵp oedran gwahanol ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd.

Y camau nesaf

Byddwn yn parhau i ddarparu adnoddau a hyfforddiant i alluogi athrawon cynradd llai hyderus neu anarbenigol i addysgu ieithoedd i helpu i greu capasiti a chyfalaf ieithyddol hollbwysig yn y system. Yn ogystal â hynny byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael profiad o ieithoedd ochr yn ochr â chysiau arholiad.

Bydd strwythur y cwricwlwm newydd yn cynnig cyfleoedd cyffrous i greu polisi amlieithog cyfoethog ac effeithiol ar gyfer addysg ieithoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith a'r cynnydd sydd wedi'i wneud, ac a fydd yn cael ei gyflawni, gan ein cynllun Dyfodol Byd-eang. Bydd dysgu am ieithoedd a diwylliant yn rhan annatod o'n nod o ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.

